**ATODIAD A – DATGANIAD O FWRIAD A MEINI PRAWF ASESU**

Rhaid i bob cynnig ddod gyda datganiad o fwriad a all gynnwys cyfuniad o ddeunydd ysgrifenedig a gweledol. Bydd fideos ategol yn cael eu derbyn hefyd.

Meini Prawf Gwerthuso

Bydd y broses sgorio yn seiliedig ar asesiad ansawdd yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Tystiolaeth o brofiad o weithredu cyfleusterau tebyg neu sgiliau trosglwyddadwy / profiad (15%)
- Trosolwg o farchnadoedd targed a niferoedd ymwelwyr disgwyliedig (15%)
- Dadansoddiad manwl o raddfa a chwmpas y gweithrediad arfaethedig, gan gynnwys system archebu arfaethedig a manyleb cwrt / cyrtiau padel dros dro (caniateir hyd at 2 gwrt) (40%)
- Methodoleg ar gyfer datgymalu'r Cyrtiau Padel ar ôl i gyfnod y drwydded ddod i ben (5%)
- Sut mae'r cynnig wedi'i gysoni ag uchelgeisiau adfywio ehangach ar gyfer Porthcawl (10%)
- Cyfweliad (15%)

Rhesymeg Sgorio a Gweithdrefn Werthuso'r Datganiad o Fwriad

Bydd gwerthuso tendrau yn cynnwys asesiad o'r graddau y mae gofynion y meini prawf uchod wedi'u bodloni.

Bydd pob categori yn cael ei sgorio allan o 5 (0 i 5) fel y dangosir yn y tabl isod. Bydd y sgôr a roddir gan y Panel Gwerthuso yn cyfateb i sgôr derfynol, e.e. bydd sgôr o 5 yn cyfateb i'r pwysoliad / pwyntiau uchaf sydd ar gael yn erbyn y meini prawf.

| Sgôr | Ymateb |
|---|---|
| 5 | Ymateb enghreifftiol, gyda lefel uchel o wybodaeth a manylder wedi'u darparu. Yn dangos y rhagorir ar y gofynion. |
| 4 | Ymateb o ansawdd uchel, gyda lefel dda o wybodaeth ategol wedi'i darparu. Yn dangos ei bod hi'n debygol y rhagorir ar y gofynion. |
| 3 | Safon dda o ymateb gyda'r gofynion wedi'u bodloni. Dangos dealltwriaeth glir o ofynion. |
| 2 | Ymateb sylfaenol derbyniol. Mae'r wybodaeth a'r ddogfennaeth atodol y gofynnwyd amdanynt wedi'u darparu ac maent yn ddigonol. |
| 1 | Ymateb anfoddhaol. Mae'r ymateb yn annerbyniol neu nid yw wedi'i gadarnhau'n ddigonol. Nid yw'n dangos dealltwriaeth o'r gofynion. |
| 0 | Ymateb heb ei ateb neu ymateb nad yw'n bodloni'r gofyniad mewn unrhyw ffordd. |

**Bydd unrhyw dendr sy'n sgorio 1 neu is o'r tabl uchod, ar gyfer unrhyw feini prawf neu gwestiynau cyfweliad (Fel y bo'n briodol) yn cael ei anghymhwyso'n awtomatig gan y Cyngor ac ni fydd yn symud ymlaen ymhellach yn y broses dendro, a bydd ei benderfyniad yn y mater yn derfynol.**